**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd ddydd Iau 20 Mawrth 2024 am 10am trwy Zoom.**

Yn bresennol: Dr Robert Weaver (Cadeirydd), Aneesa Ali, Pers Aswani, Dr Nick Starkey ac Agnes Xavier-Phillips.

Hefyd yn bresennol: Jonathan Brown (KPMG), Clare Eveleigh, Ellie Hetenyi (KPMG), yr Athro Wendy Larner, Sian Marshall, Carys Moreland, Claire Sanders, Laura Sheridan, Natalie Stewart, Simon Wright [cofnodion 1252-1253], Darren Xiberras.

**1242 Croeso a materion rhagarweiniol**

1242.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

1242.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo'r gwaith o baratoi'r cofnodion.

1242.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod cyflwyniad y Prif Swyddog Trawsnewid wedi cael ei ohirio hyd nes cyfarfod dilynol i'w galluogi i ganolbwyntio ar gwblhau'r cynllun i gefnogi Strategaeth newydd y Brifysgol ar gyfer ei adolygu gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Cyngor.

**1243 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Suzanne Rankin. Cadarnhawyd bod digon yn y cyfarfod i greu cworwm.

**1244 Datganiadau o fuddiant**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'u dyletswydd i ddatgelu unrhyw wrthdaro posibl o ran buddiannau. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**1245 Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 (23/548C) yn gofnod gwir a chywir ac fe'u cymeradwywyd i gael eu llofnodi gan y Cadeirydd.

**1246 Materion yn codi o'r cofnodion**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/699C, 'Materion yn Codi'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

1246.1 <u>(Cofnod 1209.3):</u> Bod y dyddiad cau ar gyfer y cynllun gwella risgiau wedi'i symud yn ôl i fis Hydref 2024 i gyd-fynd ag amseriad yr Adroddiad Rheoli Risgiau Blynyddol.

Penderfynwyd

1246.2 Y byddai camau gweithredu 1223.12, 1226.5 a 1235.2 yn dod i ben gan fod eitemau ar yr agenda yn eu cwmpasu.

**1247 Eitemau gan y Cadeirydd**

Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

1247.1 Bod y Rheolwr Cydymffurfedd Ariannol Dros Dro bellach wedi gadael y Brifysgol.

**1248 Cofrestr Risgiau Strategol**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/684HC, 'Cofrestr Risgiau Strategol'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

1248.1 [Hepgorwyd]

1248.2 [Hepgorwyd]

1248.3 [Hepgorwyd]

1248.4 [Hepgorwyd]

1248.5 [Hepgorwyd]

1248.6 [Hepgorwyd]

1248.7 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

1248.8 Argymell y crynodeb o’r Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau i'r Cyngor.

**1249 Adroddiad Cynnydd ar yr Archwiliad Allanol**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/685C 'Adroddiad Cynnydd ar yr Archwiliad Allanol'. Siaradodd KPMG am yr eitem hon.

Nodwyd

1249.1 Bod gweithdrefnau cynllunio ac asesu risgiau wedi'u cwblhau; bod y cynllun archwilio wedi'i baratoi, a bod dyddiadau ar gyfer yr ymweliadau interim a therfynol wedi’u pennu.

1249.2 Y rhagwelwyd y byddai'r broses archwilio yn cael ei gwella eleni gan nad oedd tîm KPMG wedi newid a bod perthnasoedd gwaith da wedi'u meithrin â thîm Cyllid y Brifysgol.

1249.3 Bod yr adborth a ddeilliodd o'r adolygiad blynyddol o’r archwiliad mewnol yn gadarnhaol ar y cyfan, a bod KPMG wedi nodi yn ei adroddiad sut y byddid yn mynd i’r afael â’r ddau gwestiwn a gafodd y sgoriau isaf.

1249.4 Bod y diweddariad ar y sector addysg uwch yn tynnu sylw at ofynion adrodd y Grŵp Craffu ar Addysg a’r broses o oruchwylio deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol; bod y rhain yn ddau faes y byddai'n fuddiol cael mewnbwn arnynt gan KPMG yn y dyfodol.

Penderfynwyd

1249.5 Y byddai’r Pwyllgor yn cael rhagor o wybodaeth gan KPMG am ofynion adrodd y Grŵp Craffu ar Addysg a’r broses o oruchwylio deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol yn y dyfodol, a hynny, o bosibl, yn rhan o sesiwn ddatblygu.

**1250 Cynllun Archwilio Allanol**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/686C 'Cynllun Archwilio Allanol’. Siaradodd KPMG am yr eitem hon.

Nodwyd

1250.1 Bod perthnasedd y grŵp wedi'i osod ar £6.3 miliwn yn seiliedig ar 1% o gyfanswm y refeniw a ragwelid, ac y byddai'n cael ei adolygu ddiwedd y flwyddyn; bod perthnasedd perfformiad wedi cael ei gynnal ar 65% ac y gellid ei gynyddu i 75-85% yn unol â'r proffil risg.

1250.2 Bod y trothwy ar gyfer rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gamddatganiadau wedi'i osod ar £310 mil yn seiliedig ar 5% o'r refeniw; bod yna drothwyon gwahanol ar waith ar gyfer rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gyfeiliornadau perthnasol yn ymwneud â threth a ffurflenni eraill (£50 mil), ac ar gyfer adrodd am faterion i CCAUC; na fyddai yna oblygiadau o ran cost pe byddai'r trothwy ar gyfer rhoi gwybod am gamddatganiadau yn cael ei osod ar lefel is, ond y byddai'n ddefnyddiol i KPMG gael gwybod am unrhyw gais i ostwng y trothwy cyn gynted â phosibl, i lywio'r gwaith archwilio.

1250.3 Bod asesiad risg KPMG wedi nodi'r risgiau archwilio sylweddol fel a ganlyn:

- prisio rhwymedigaethau buddion diffiniedig ar ôl ymddeol mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd oherwydd y rhwymedigaethau gros a graddau'r amcangyfrif goddrychol a ddefnyddid; nid oedd hyn yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) gan fod y newidiadau diweddar i'r cynllun yn golygu na fyddai darpariaeth USS ar y fantolen;
- cydnabod refeniw incwm ymchwil oherwydd lefel y dyfarniadau mewn perthynas â'r maes hwn a'r risg o beidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau grantiau;
- rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

1250.4 Bod busnes gweithredol wedi'i nodi yn risg archwilio arall; bod mesurau torri costau a chynllun diswyddo'r Brifysgol wedi cael gwybod ar ôl i'r adroddiad gael ei lunio, ond nad oedd yn effeithio ar yr asesiad risg ar y pryd; bod y busnes gweithredol yn cynrychioli sefyllfa o risgiau cynyddol o ystyried sefyllfa ariannol y Brifysgol.

1250.5 Nad oedd prisiad eiddo, offer a chyfarpar wedi'i nodi'n risg archwilio gan fod asedau'n cael eu dal ar sail cost llai dibrisiant yn hytrach nag ailbrisiad, ac felly nid oeddent yn destun effeithiau allanol; bod yna ganfyddiadau blaenorol wedi codi o ran prosesau a rheolaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf, ond bod rheolaethau bellach ar waith a lefel y gwariant cyfalaf yn llawer is nag mewn blynyddoedd blaenorol, a oedd wedi arwain at asesiad o risg is; bod yr adolygiad o'r ystad wedi nodi mai mater bach i'r Brifysgol fyddai concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC).

1250.6 Y byddai Safon Foesegol newydd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2024 ac y byddai'n cael ei chymhwyso i archwiliad 2024-25.

Penderfynwyd

1250.7 Cymeradwyo cynllun archwilio allanol 2023-24.

1250.8 Y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Ariannol yn adolygu'r trothwyon ar gyfer adrodd am gamddatganiadau, cyfeiliornadau perthnasol a materion eraill i sicrhau cysondeb, gan gynnwys rhoi awdurdod i'r Cadeirydd bennu'r trothwy priodol ar gyfer adrodd am gamddatganiadau, a hynny cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**1251 Diweddariad ar y Fframwaith Rheoli Allweddol**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/687C 'Diweddariad ar y Fframwaith Rheoli Allweddol'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

1251.1 Bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd y gwaith i nodi, cofnodi ac adolygu rheolaethau ariannol allweddol, rheolaethau sefydliadol eraill a rheolaethau

rheoleiddiol; bod yr adroddiad yn nodi rhagor o feysydd lle'r oedd y broses o gofnodi rheolaethau ariannol wedi'i chynllunio; bod yna adolygiad o weithrediad rheolaethau allweddol yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

1251.2 Bod yna achos busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Cyllid, a oedd yn cynnwys ffrwd waith bwrpasol i gofnodi ac adolygu prosesau a rheolaethau mewn meysydd blaenoriaeth; bod cynllun i ddisodli'r system Gyllid, a oedd yn costio £40 miliwn, wedi ei atal, a bod y Prif Swyddog Ariannol wedi ymrwymo i adolygu anghenion y system dros gyfnod o 3-5 mlynedd; bod y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth newydd yn mynd i arwain adolygiad o anghenion digidol y Brifysgol, ac y byddai'r system Gyllid yn cael ei hystyried yn rhan o'r gwaith hwn mewn perthynas â blaenoriaethau eraill a'r arian a oedd ar gael.

1251.3 Bod y Prif Swyddog Ariannol yn bwriadu gweithio gyda Phrif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd newydd y Brifysgol i ystyried y modd yr oedd rheolaethau'n cael eu nodi, eu cofnodi a'u hadolygu, a hynny'n rhan o'r Model Gweithredu Targed (TOM).

1251.4 Y byddai angen ymgymryd â gwaith i grynhoi'r rheolaethau rheoleiddiol a oruchwylid gan y Tîm Cydymffurfedd a Risg ar ffurf fframwaith.

1251.5 Bod y rhaglen drawsnewid yn gyfle i nodi rheolaethau allweddol wrth i strwythurau, prosesau a gweithdrefnau gael eu hadolygu; ei bod yn fanteisiol monitro rheolaethau allweddol trwy system gwybodaeth reoli lle bo hynny'n bosibl, a fyddai'n tynnu sylw'n awtomatig at fethiannau o ran y rheolaethau.

1251.6 Bod y prosiect cofnodi rheolaethau allweddol wedi bod yn mynd rhagddo ers mis Mehefin 2023 a'r canfyddiad oedd mai araf fu'r cynnydd; bod y cyfrifoldeb gweithredol am waith ychwanegol a oedd yn ofynnol mewn rhai meysydd yn perthyn i swyddi a oedd yn wag ar y pryd ac y byddai angen penodi pobl iddynt; bod y Pwyllgor yn awyddus i wneud cynnydd yn fwy cyflym; nad oedd yna allu ychwanegol ar gael yn rhwydd yn y tîm Cyllid; y byddai angen adolygu'r gallu o fewn y tîm pe bai'n fwriad i'r gwaith arfaethedig gael ei wneud yn gyflymach.

Penderfynwyd

1251.7 Y byddai'r Prif Swyddog Ariannol yn adolygu gallu'r tîm Cyllid i symud y gwaith ychwanegol a oedd yn ofynnol yn ei flaen yn gyflymach ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

1251.8 Y byddai'r Tîm Cydymffurfedd a Risg yn crynhoi'r rheolaethau rheoleiddiol a oruchwylid gan y tîm ar ffurf fframwaith.

**1252 Adroddiad Diweddaru ynghylch Digwyddiadau Mawr a Difrifol, gan gynnwys adroddiadau am gau**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/688HC 'Adroddiad Diweddaru ynghylch Digwyddiadau Mawr a Difrifol'. Siaradodd Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol am yr eitem hon. Ymunodd y Cofrestrydd Academaidd â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Nodwyd

1252.1 [Hepgorwyd]

1252.2 [Hepgorwyd]

1252.3 [Hepgorwyd]

1252.4 [Hepgorwyd]

1252.5 [Hepgorwyd]

1252.6 [Hepgorwyd]

1252.7 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

1252.8 Cadarnhau bod yr adroddiad yn rhoi digon o sicrwydd o ran y risgiau yn y maes hwn.

1252.9 Cynnal archwiliad dwfn mewn cyfarfod yn y dyfodol o'r risgiau o ran lles a llesiant myfyrwyr, gan gynnwys diweddariad ynghylch a aseswyd bod camau lliniaru wedi'u hymgorffori'n llawn.

1252.10 Rhannu data â'r Pwyllgor am hunanladdiad ymhlith myfyrwyr o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

**1253 Adroddiad Cynnydd ar yr Archwiliad Mewnol**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/689HC 'Adroddiad Cynnydd ar yr Archwiliad Mewnol'. Siaradodd y Pennaeth Archwilio Mewnol am yr eitem hon.

Nodwyd

<u>Datganiadau Data AU</u>

1253.1 [Hepgorwyd]

<u>Dull Tryloyw o Gostio (TRAC)</u>

1253.2 [Hepgorwyd]

**1254 Adroddiad yr Archwiliad Mewnol ar Asesu Parodrwydd o ran UKVI**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/714HC 'Adroddiad yr Archwiliad Mewnol ar Asesu Parodrwydd o ran UKVI'. Siaradodd y Cofrestrydd Academaidd am yr eitem hon.

Nodwyd

1254.1 [Hepgorwyd]

1254.2 [Hepgorwyd]

1254.3 [Hepgorwyd]

1254.4 [Hepgorwyd]

*Gofynnodd y Pwyllgor i bob Swyddog, ar wahân i'r Cynghorydd Llywodraethu a'r Pennaeth Archwilio Mewnol, adael y cyfarfod dros dro er mwyn i'r aelodau gael trafodaeth breifat; nid oedd unrhyw gamau gweithredu wedi deillio o'r drafodaeth hon.*

*Gadawodd Simon Wright y cyfarfod ar ddiwedd yr eitem hon.*

**1255 Adroddiad Olrhain Argymhellion yr Archwiliad Mewnol**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/690HC 'Adroddiad Olrhain Argymhellion yr Archwiliad Mewnol'. Siaradodd y Pennaeth Archwilio Mewnol am yr eitem hon.

Nodwyd

1255.1 [Hepgorwyd]

1255.2 [Hepgorwyd]

1255.3 [Hepgorwyd]

1255.4 [Hepgorwyd]

1255.5 [Hepgorwyd]

1255.6 [Hepgorwyd]

1255.7 [Hepgorwyd]

1255.8 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

1255.9 Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor am y modd y byddai'r 10 cam gweithredu hwyr a oedd yn brif flaenoriaeth yn cael eu cwblhau.

1255.10 Y byddai’r rheolwyr, o ran y sawl a oedd yn gyfrifol am weithredu argymhellion a oedd flwyddyn neu fwy yn hwyr, yn gofyn iddynt ddod i'r Pwyllgor i roi diweddariadau ar gynnydd.

**1256 Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/691HC, 'Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25'. Siaradodd y Pennaeth Archwilio Mewnol am yr eitem hon.

Nodwyd

1256.1 [Hepgorwyd]

1256.2 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

1256.3 Cymeradwyo Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25.

**1257 Cynllun Archwilio Mewnol 2024-25**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/713HC 'Cynllun Archwilio Mewnol 2024-25'. Siaradodd y Pennaeth Archwilio Mewnol am yr eitem hon.

Nodwyd

1257.1 [Hepgorwyd]

1257.2 [Hepgorwyd]

1257.3 [Hepgorwyd]

1257.4 [Hepgorwyd]

1257.5 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

1257.6 Cymeradwyo'r rhaglen archwilio mewnol ar sail risg ar gyfer 2024-25.

**1258 Adolygiad o’r Archwiliad Mewnol: Cynllun Gweithredu**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/692HC 'Adolygiad o’r Archwiliad Mewnol: Cynllun Gweithredu’. Siaradodd y Pennaeth Archwilio Mewnol am yr eitem hon.

Nodwyd

1258.1 [Hepgorwyd]

1258.2 [Hepgorwyd]

*Gadawodd Ellie Hetenyi y cyfarfod ar ddiwedd yr eitem hon.*

**1259 Diweddariad ar Gydymffurfedd Ariannol**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/693C 'Diweddariad ar Gydymffurfedd Ariannol'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

1259.1 [Hepgorwyd]

1259.2 Bod achos busnes dros recriwtio Pennaeth Cydymffurfedd Ariannol parhaol i gael ei adolygu gan y panel rheoli recriwtio; bod ceisiadau am wybodaeth yn cael eu rheoli gan y Tîm Cydymffurfedd a Risg gyda mewnbwn gan y Tîm Incwm yn yr Adran Gyllid; bod y Rheolwr Cydymffurfedd Ariannol Dros Dro wedi cynnal proses drosglwyddo fanwl; bod elfennau adweithiol y rôl yn cael eu cyflawni yn y byrdymor ond bod y gwaith mwy rhagweithiol wedi'i ohirio hyd nes y byddai rhywun wedi’i benodi i’r swydd.

1259.3 Bod y polisi newydd Atal Gwyngalchu Arian, Atal Ariannu Terfysgaeth, Sancsiynau Ariannol ac Efadu Trethi wedi'i gymeradwyo a'i ddosbarthu i'r Pwyllgor fel bod yr aelodau’n ymwybodol ohono.

**1260 Adroddiad Ymgyfreitha**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/695HC, 'Adroddiad Ymgyfreitha'. Siaradodd Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol am yr eitem hon.

Nodwyd

1260.1 [Hepgorwyd]

1260.2 [Hepgorwyd]

1260.3 [Hepgorwyd]

1260.4 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

1260.5 Y byddai fersiwn nesaf yr adroddiad yn rhoi manylion y darpariaethau a wnaed, a lle roedd achosion yn destun polisïau yswiriant.

**1261 Adroddiadau Chwythu’r Chwiban**

Siaradodd Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol am yr eitem hon.

Nodwyd

1261.1 Bod y cyfarfod diwethaf wedi cael gwybod bod yna un achos yn cael ei adolygu i benderfynu a fyddai'n cael ei ystyried o dan y Polisi; bod yr adolygiad a gynhaliwyd gan

Ysgrifennydd a Chwnsler Cyffredinol y Brifysgol, a'r Pennaeth Cydymffurfedd a Risg wedi arwain at atgyfeirio'r achos a chymryd camau gweithredu o dan Bolisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lwgrwobrwyaeth y Brifysgol.

**1262 Hunanwerthusiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Risg**

Cafwyd ac ystyriwyd papur 23/696C 'Hunanwerthusiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Risg'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

1262.1 Bod canlyniadau'r arolwg yn gadarnhaol yn achos y mwyafrif o feysydd; bod ymatebion llai cadarnhaol wedi dod i law mewn perthynas â'r ddau gwestiwn canlynol:

> 3.5 Pan fyddai penderfyniad wedi'i wneud neu pan geid cytundeb ar gamau gweithredu, roedd yr aelodau'n teimlo'n hyderus y byddai hyn yn cael ei roi ar waith fel y cytunid arno ac yn unol â'r amserlen a bennid.
>
> 7.2 Roedd y Pwyllgor yn glir ynghylch y berthynas ategol a oedd ganddo â phwyllgorau eraill y corff llywodraethu neu'r Senedd.

1262.2 Bod amseroldeb cyflawni camau gweithredu wedi'i drafod yn gynharach yn y cyfarfod ac nad oedd angen cymryd camau pellach; bod yna le i aelodau'r Pwyllgor feithrin gwell dealltwriaeth o'r strwythur llywodraethu ehangach a rôl a chyfrifoldebau pwyllgorau eraill y Brifysgol.

1262.3 Bod yr arolwg wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn mewn perthynas â'r Cadeirydd a'r ffaith bod y Pwyllgor yn cael ei gadeirio'n effeithiol.

Penderfynwyd

1262.4 Y byddai sesiwn ddatblygu yn cael ei darparu ar gyfer aelodau ar y strwythur llywodraethu ehangach a rôl a chyfrifoldebau pwyllgorau eraill y Brifysgol.

1262.5 Y byddai adolygiad blynyddol nesaf y Pwyllgor o effeithiolrwydd yn cynnwys mewnbwn allanol. Byddai natur y mewnbwn hwn yn cael ei bennu, ond gallai o bosibl fod yn fewnbwn gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu Bennaeth Archwilio o sefydliad arall, neu gan adolygydd annibynnol.

**1263 Unrhyw Fater Arall**

Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

1263.1 Bod Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol yn bresennol yn ei chyfarfod olaf ar ôl deng mlynedd o wasanaeth i'r Brifysgol; bod y Pwyllgor wedi mynegi ei ddiolch am ei chyfraniad a'r gefnogaeth a roddwyd i'r Pwyllgor.

**1264 Adolygu'r risgiau a nodwyd ar y Gofrestr Risgiau**

Penderfynwyd

1264.1 Bod y gofrestr risgiau yn cynrychioli'r wybodaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn gywir.

**1265 Eitemau a gafwyd er gwybodaeth**

Nodwyd

1265.1 Y papurau canlynol:

23/697C Adolygiad Blynyddol o'r Gwasanaeth Archwilio Allanol
23/698 Amserlen Busnes y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod

*Gadawodd pob Swyddog y cyfarfod ar gyfer yr eitemau a gadwyd yn ôl, ar wahân i'r Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Cynghorydd Llywodraethu.*

**1266 Cyfarfod Cyfrinachol**

Ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg, cynhaliwyd cyfarfod cyfrinachol. Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yr archwilwyr allanol, a'r Cynghorydd Llywodraethu yn bresennol.

Penderfynwyd

1266.1 Y byddai archwiliadau dwfn o risgiau cydymffurfedd cyfreithiol a rheoleiddiol penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

*Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024 yn gofnod gwir a chywir ac fe'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 10 Hydref 2024.*